



# Adroddiad Blynyddol Ebrill 2019 – Mawrth 2020

## Swyddog Mynegai

**Y Mynegai yw cofrestr wirfoddol Bro Morgannwg ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag anableddau neu anghenion ychwanegol.**

**Mae'n dda cael y wybodaeth gywir a gwybod pa gefnogaeth sydd ar gael.**


**Mae Bro Morgannwg eisiau i chi gael bywyd llawn, hapus ac iach.**

**Rydym eisiau i chi gysylltu â gwasanaethau, cymryd rhan mewn gweithgareddau a chael hwyl – dyna bwrpas y Mynegai.**


**Mae'r Mynegai yn rhoi gwybod i chi am y gwasanaethau, gweithgareddau a digwyddiadau yn eich ardal.**





# Ffeithiau a Ffigurau'r Fro 2019-2020

Cyfanswm o 786 ar y Mynegai yn y Fro erbyn 31 Mawrth 2020 


32%  67% 

Mae Gan **21%**  weithiwr cymdeithasol

Mae Gan **24%**  ddatganiad


Mae **31%**  yn hawlio LBA / TAB

Mae **10%**  yn ddefnyddwyr cadair olwyn


Mae **37%**  yn cael meddyginiaethau


Mae **42%**  ar y Sbectrwm Awtistig

Mae **2**  deulu yn cael y cylchlythyr yn Gymraeg

Daw **5%**  ao leiafrifoedd ethnig

## Pob rheswm dros gofrestru



Mae **7%**  yn defnyddio System Gyfathrebu â Lluniau

Mae **3%**  yn defnyddio Makaton

Cafwyd **190+** o ymholiadau ADY penodol



Cafwyd 126 o gofrestriadau Ebrill 2019 – Mawrth 2020

Mae gan **39%**  o'r cofrestriadau newydd hyn Anhwyllderau'r Sbectrwm Awtistig

Mae gan **34%** o'r cofrestriadau newydd hyn anawsterau ymddygiadol/emosiynol

Cyfeiriwyd **25%**  o'r cofrestriadau newydd gan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd

Cyfeiriwyd **40%**  o'r cofrestriadau newydd gan ymwelydd iechyd





# Cyflawniadau Allweddol Ebrill 2019 – Mawrth 2020



126

cofrestriad NEWYDD



Gofynnwyd i'r rhai a oedd yn troi'n 18 oed a hoffent gael eu hychwanegu at 'restr bontio'



Presenoldeb rheolaidd yng Nghanolfan Blant ag Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd Llandochoau



Gweithiwyd gyda gweithwyr proffesiynol yn y gwasanaethau cymdeithasol i hyrwyddo cyfleoedd dydd i deuluoedd




Boreau Coffi'r Mynegai wedi eu cynnal mewn Ysgolion Cynradd




Cafwyd bron 200 o ymholiadau i'r Mynegai am wybodaeth ynghylch anghenion ychwanegol



Sesiwn wybodaeth ar ôl ysgol wedi eu cynnal gyda rhieni a phartneriaid allweddol



Anfonwyd arolwg yn holi am gylchlythyr y Mynegai




Cynhyrchwyd taflen 'Cyfeillgar i Deuluoedd' rhanbarthol



Sefydlwyd proses atgyfeirio ar gyfer teuluoedd sy'n gwneud cais am y Cynnig Gofal Plant



Sefydlwyd gweithgor pontio ar gyfer pobl ifanc 14-19 oed. Mae adran 'Cynllunio ar gyfer Fy Nyfodol' bellach wedi'i chynnwys yn y cylchlythyr



Gwell prosesau atgyfeirio ar gyfer timau gwasanaethau cymdeithasol allweddol.

# Feedback

## April 2019 - March 2020

'Byddai'n dda petawn i'n gwybod am y Mynegai lawer yn gynharach pan gafodd fy mab ei ddiagnosis yn wreiddiol. Rydw i'n creu bod angen i'r GIG eich hyrwyddo mwy ar adeg diagnosis.'

**Dywedodd**  
**100%** ✓  
**fod y Mynegai yn eu helpu**

'Y cyfan y gallaf ei ddweud yw eu bod yn ARBENNIG a byddwn yn eu hargymell bob tro.  
Cefnogaeth dda i bawb.'


'Mae'r Mynegai wedi fy helpu i ddod o hyd i grwpiau a gweithgareddau lle gallaf uniaethu â rhieni eraill. Mae wedi fy helpu i ddod o hyd i grwpiau cymorth gerllaw. Diolch am eich gwaith ar y cylchgrawn ac am yr holl gefnogaeth i fi a fy mab'

'Mae eich help a'ch cefnogaeth yn cael eu gwerthfawrogi cymaint a dydw i ddim yn meddwl eich bod yn gwybod faint - felly ro'n i'n meddwl y dylwn i ddweud wrthoch chi! Diolch yn fawr i chi.'

'Rwy'n gweithio i Dechrau'n Deg, mae pawb wedi bod yn gymwynasgar ac maen nhw'n rhoi llawer o gyngor, nid yn unig i fi ond i'r holl deuluoedd rwy'n gweithio gyda nhw. Mae hyd yn oed rhieni rwy'n gweithio gyda nhw yn cael y tîm yn gymwynasgar iawn a byddant yn teimlo'n dda am ryngweithio â nhw. Felly, diolch i chi eto am eich cymorth.'



# Blaenoriaethau Ebrill 2020 – Mawrth 2021



1

Ymgysylltu â rhieni a gweithwyr proffesiynol i bennu diben a fformat y Mynegai

2

Symleiddio ffurflen gofrestru'r Mynegai a'r data a gesglir



3

Gwella'r wybodaeth am bontio drwy weithio gydag ysgolion, gweithwyr pontio a phobl ifanc

4

Sefydlu grŵp caeedig ar Facebook ar gyfer teuluoedd y Mynegai fel offeryn cyfathrebu ychwanegol



5

Adolygu'r gwaith o gynhyrchu Cylchlythyr y Mynegai yn unol ag arolwg ac adborth

6

Gweithio gyda'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd i gyflwyno rhaglen gymunedol effeithiol sy'n cynnwys ffyrdd newydd o weithio i adlewyrchu'r hinsawdd bresennol.





Os ydych yn gwybod am unrhyw grwpiau, projectau neu wasanaethau ar gyfer pobl ag anghenion ychwanegol y credwch y dylai gweddill y Fro gael gwybod amdanynt, rhowch wybod i ni a gallwn eu hyrwyddo ymysg teuluoedd a gweithwyr proffesiynol.

Os ydych yn cefnogi rhywun a fyddai'n elwa o gael ei gynnwys ar y Mynegai, gallwch gael mynediad at gopi papur neu fersiwn ar-lein o'n ffurflen gofrestru ar ein gwefan.

Mae ein tudalen we hefyd yn cynnig dolenni at fersiynau ar-lein o'r cylchlythyrau chwarterol sydd wedi eu creu, a gallwch gofrestru ar gyfer e-newyddion y Mynegai i gael y wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd.

Rydym ni bob amser yn chwilio am ffyrdd newydd o gyrraedd teuluoedd a gweithwyr proffesiynol, felly os credwch y byddai'n ddefnyddiol i ni siarad â'r bobl rydych yn gweithio gyda nhw, yna cysylltwch â ni. Gallwn drefnu i ddod â gwybodaeth am ein gwasanaethau a gwasanaethau perthnasol eraill.

 0800 587 10 14

 [theindex@valeofglamorgan.gov.uk](mailto:theindex@valeofglamorgan.gov.uk)

  
Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd y Fro  
Vale Family Information Service

Ariennir y Mynegai gan fenter Teuluoedd yn Gyntaf y Llywodraeth Cymru, ac yn cael ei weinyddu gan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd ym Mro Morgannwg.

